| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 2 Mawrth 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid |
| **Pwnc:** | Cyllideb 2023/24 |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |
| **Pwrpas:** | Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2023/24 |

---

**CYLLIDEB 2023/24**

**Y Penderfyniad a geisir**

**Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor Llawn yw y dylid:**

1. **Sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol).**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

---

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 4.95% yn gynnydd wythnosol o £1.45, neu £75.59 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,602.58 am 2023/24.

---

Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn y penderfyniad ffurfiol sydd i'w gael yn Atodiad 11.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau, ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllideb 2023/24.

1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2023/24 sy'n welliant sylweddol ar y setliad dangosol ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2021, oedd

yn rhagweld cynnydd o 3.5% ar gyfartaledd ar draws Cymru. Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant o 7.0%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £14.6m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £177k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).

1.4 Erbyn 2023/24, byddai angen cynyddu ein gwariant o £27.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £2.75m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2), ac hyn yn ychwanegol i'r £3.0m o gyllideb sydd i'w glustnodi i'r maes digartrefedd – mae'r Cyngor Llawn eisoes wedi penderfynu ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi i 150% er mwyn ariannu'r cynnydd yma.

1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Mae cyllideb 2023/24 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 4.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn byddwn angen chwilio am arbedion o £6.4m i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

1.6 Mae cynlluniau arbedion a thoriadau pellach wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 14 Chwefror 2023.

1.7 Mae'r arbedion sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y pwyllgorau craffu ac arweinyddion y grwpiau gwrthblaid mewn cyfres o weithdai yn Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023, wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Chwefror, ac wedi ei ystyried gan y Cabinet ar 14 Chwefror. Mae'r Cabinet yn argymell y gyllideb cytbwys a phriodol yma.

1.8 Wrth osod cyllideb 2022/23 roedd modd diddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys cyfran sylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, sydd â gwerth o £0.95m.

1.9 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £67.8m yn 2023/24, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.10 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2022/23.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod.

| **Grant Cynnal Refeniw 2022/23 – 2023/24** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd £** |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2022/23 | | 5,110,643,128 | 213,016,800 |
| Grant y Llywodraeth 2023/24 | | 5,513,888,400 | 227,842,926 |
| | Cynnydd £ | 403,245,272 | 14,826,126 |
| | Cynnydd % | 7.9% | 7.0% |

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 1 Mawrth 2023. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £14.8m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2022/23 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 7.0%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 7.9%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill. Yn benodol, nodir fod effaith Cyfrifiad 2021 – sy'n dangos gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd – yn dechrau cael effaith ar y setliad. Ni fydd yr effaith llawn yn cael ei weld am ychydig flynyddoedd eto.

2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 1 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 8 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2023/24, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2023/24

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2023/24.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 295,232,820 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 14,185,140 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 11,075,410 | |
| Ardollau (Tân, CNC a CBC) | 773,650 | |
| Demograffi | 261,320 | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 5,748,170 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | (872,060) | |
| Cost Benthyca / Llog ar Falansau | (1,506,900) | |
| Trosglwyddiad i'r Setliad | 176,980 | |
| Addasiadau Incwm Gwasanaethau | 400,000 | |
| Darpariaeth Lleiafswm Refeniw | (2,400,000) | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 27,841,710 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2023/24 cyn arbedion | | 323,074,530 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2022/23**

Er mai £295m yw gwariant net 2022/23, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £501m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £136m, yn codi incwm cyffredinol o £68m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu a defnyddiwyd £2m o reserfau i ariannu bidiau un tro.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £14.2m**

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2022 i Mawrth 2023 drwy gytuno cynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 4%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano. Canlyniad hyn yw fod y chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2023/24 yn cynnwys elfen i gywiro'r bwlch yma yn ogystal ystyried chwyddiant tybiannol 2023/24.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2023/24 o 5% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).

3.4 **Chwyddiant Arall £11.1m**

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.5m
- Gofal Di-breswyl:
  - Llety Cefnogol £937k,
  - Gofal Cartref £396k,
  - Gwasanaethau eraill £240k
- Ynni (Trydan) £3.3m
- Tanwydd (Disel a Petrol) £658k
- Cynnydd prisiau eraill:
  - Yswiriant £174k
  - Ail brisio trethi eiddo £155k

3.5 **Ardollau £774k**

Bydd y lefiau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2022/23 a 2023/24:

| | |
|---|---|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £701k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £0 |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £7k |
| • Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £64k |

3.6 **Demograffi £261k**

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu +£229k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£32k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£229k i ysgolion yn ganlyniad i sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£49k, arbennig +£315k a cynradd -£135k.

3.7 **Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £5.75m**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.75m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Mae hyn yn ychwanegol i'r £3m o ychwanegiad i'r gyllideb Digartrefedd sy'n cael ei ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Oherwydd y pwysau ariannol eleni, mae nifer y bidiau sydd wedi eu cymeradwyo eleni yn sylweddol is nag a fu'n bosib ar gyfer 2022/23.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn iddynt gael eu hargymell gan y Cabinet am gymeradwyaeth. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.

3.8 **Ystyriaethau Eraill Amrywiol (£1.8m)**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£1.5m) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr o (£1.1m) yn sgil yr ail-brisiad tair-blynyddol, ond cynnydd cost o £800k oherwydd addasiad ffioedd a phrisiau ac ystyriaethau cyllidebol eraill.

3.9 **Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (£2.4m)**

Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR).

Er y sonnir am "ddyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthyca'n fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.

Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLlR yn flynyddol, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLlR.

Yn dilyn adolygiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, fe argymhellwyd addasu'r polisi DLIR ar gyfer yr elfen benthyca a gefnogir.

Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.

Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus fydd yn clirio'r ddyled Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf. Yn benodol, bydd yn golygu fod rhaid i'r Cyngor neilltuo £2.4m yn llai yn 2023/24 nag a fyddai dan y polisi cyfredol.

## 4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

4.1 **Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16**.

4.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Roedd yr angen i lithro yn ganlyniad, i raddau helaeth, oherwydd effaith sylweddol y pandemig Covid-19.

4.3 Roedd y cyfanswm yma yn cynnwys arbedion gwerth £950,250 sydd i'w cyflawni yn 2023/24. Mae cyllideb drafft 2023/24 yn ystyried y bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn hon, a bydd cyrhaeddiad yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3.

4.4 Mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2023/24 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2023/24** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 935,250 |
| Adran Economi a Chymuned | 15,000 |
| **Arbedion Cynlluniedig Presennol 2023/24** | **950,250** |

## 5. BWLCH ARIANNU 2023/24 A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2023/24 yn £323.1m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £227.8m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £950,250 o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

| **Sefydlu Cyllideb 2023/24** | |
|---|---|
| | £ |
| Cyllideb Sylfaenol 2022/23 | 295,232,820 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 27,841,710 |
| Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion | 323,074,530 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (227,842,930) |
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach | 95,231,600 |

5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £95.2m sydd angen ei lenwi.

Arbedion Newydd

5.4 Mae'r Cabinet, yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023, wedi cymeradwyo gweithredu cynlluniau arbed newydd o £3.1m yn 2023/24 gydag arbedion pellach i'w cyflawni yn 2024/25 a 2025/26, ac argymhellir lleihau cyllidebau ysgolion o £1.1m hefyd yn 2023/24, ar ôl ystyried chwyddiant. O ystyried y £0.95m o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 yn flaenorol (gweler Rhan 4 uchod), argymhellir fod cyfanswm o £5.2m o arbedion yn cyfrannu i lenwi'r bwlch ariannol.

5.5 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion yn Atodiad 3, ac mae dolen i adroddiad y Cabinet 14 Chwefror 2023 i'w gael yma:
Adroddiad
Atodiad

5.6 Gwelir yn yr adroddiad fod y gwaith o sefydlu Cynllun Arbedion wedi cychwyn yn Tachwedd 2022 drwy ofyn i bob Pennaeth Adran gyflwyno cynigion o fewn eu meysydd gwaith a fyddai'n arwain at arbedion neu doriadau ariannol. Rhoddwyd cyfarwyddyd fod angen i bob uned waith gyflwyno cynigion gyfwerth â 20% o'u cyllideb craidd er mwyn i'r Aelodau Cabinet fynd ati i flaenoriaethu'r cyfan gan geisio darganfod y cynigion oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.

5.7 Fe aseswyd pob un o'r cynigion unai gan y Prif Weithredwr neu gan un o'r Cyfarwyddwyr, gan osod pob cynllun unai yn arbediad effeithlonrwydd neu doriad er mwyn galluogi'r Aelodau i allu blaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol.

5.8 Pan yn cyflwyno eu cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Gofynnwyd hefyd i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu eu cynigion gan adnabod y rhai fyddai'n cael lleiaf o effaith ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

5.9 Dros gyfnod o dri diwrnod bu i bob Pennaeth Adran gyflwyno eu cynigion i weithdai o Aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu ynghyd ag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn y Cyngor.

5.10 Drwy gydol y broses hon, prif nod yr aelodau a swyddogion oedd ceisio darganfod cynigion fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar drigolion Gwynedd pe byddent yn cael eu gweithredu. Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau. Mae adroddiad y Cabinet yn egluro fod y broses hon wedi arwain at allu darganfod arbedion effeithlonrwydd gellir eu gweithredu i gyfrannu at lenwi'r bwlch ariannol yn 2023/24 yn hytrach na thoriadau i wasanaethau.

Treth Cyngor

5.11 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 4.95% yn cynhyrchu £90,037,380 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.

| | |
|---|---|
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion | 95,231,600 |
| Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo | (950,250) |
| Llai Arbedion newydd | (4,243,970) |
| Bwlch gweddillol o'r Dreth Cyngor | 90,037,380 |

5.12 Bydd hyn yn £8.0m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2022/23, sy'n gyfuniad o £3m o arian premiwm ychwanegol tuag at y maes digartrefedd a £5m ar gyfer anghenion gwariant cyffredinol y Cyngor. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.13 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.14 Pe bai aelodau'r Cygnor awydd cynnydd llai na 4.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod mwy o arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.

5.15 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2023/24 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2023/24

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2023/24 ac er gwaethaf cynnydd grant sy'n uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol, cyflwyno arbedion newydd, a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £323.1m, wedi ychwanegu £27.8m, sy'n cynnwys darparu £5.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £227.8m a dibynnu ar £5.2m o arbedion (£950k o arbedion hanesyddol sydd eisoes wedi eu rhaglennu a £4.2m o arbedion newydd), bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 4.95% i gynhyrchu £90m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2023/24.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24** | |
|---|---|
| | £ |
| Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion | 323,074,530 |
| Cyfanswm Arbedion 2023/24 | (5,194,220) |
| Cyllideb 2023/24 | 317,880,310 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 227,842,930 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 4.95%) | 90,037,380 |
| Cyllideb 2023/24 | 317,880,310 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£317,880,310**. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2023/24. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2023/24 i 2025/26, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 yn 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2023/24, mae £385k o'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 5 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2b.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2023/24 yn Rhagfyr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.0% yn 2024/25. Disgwylir i Cyngor Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru fel canlyniad i newidiadau poblogaeth a amlygwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021. Er enghraifft, derbyniwyd +7.0% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +7.9%.

8.2 Yn ogystal â chynlluniau arbed sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn cwrdd â bwlch 2023/24, mae cynigion pellach fydd i'w gweithredu yn 2024/25, gan gynnwys £0.8m o arbedion ysgolion a £2.8m o arbedion ar gyfer gweddill y Cyngor. Bydd y mater o dan adolygiad parhaus yn ystod 2023/24, gan gynnwys asesu cynigion arbed pellach fel bo'r angen.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae’r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau’r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i’w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5, ‘Ymdrin â’r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24’, yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i’r Cabinet a’r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â’r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â’r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau’r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae’r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i’w hamddiffyn a’u ariannu i’r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.

9.5 Mae’r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae’r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â’r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â’r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.6 Mae rhaid i’r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

## 10. PWYLLGOR LLYWODRAETH AC ARCHWILIO

10.1 Yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror, penderfynodd y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio dderbyn yr adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft, gan nodi'r cynnwys a derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol.

10.2 Nid oedd unrhyw bwynt penodol roedd y Pwyllgor yn ystyried fod angen dwyn sylw'r Cabinet na'r Cyngor Llawn iddo. Fodd bynnag, roedd y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth fel a ganlyn:

10.3 **Defnydd o falansau, cronfeydd a reserfau**
Nodwyd fod rhai awdurdodau yn cau bwlch ariannol trwy gyfuniad o gynyddu Treth Cyngor, cyflwyno arbedion a "defnyddio balansau". Rhoddwyd cyfle i'r Pennaeth Cyllid egluro pam nad oedd defnydd o falansau, cronfeydd neu reserfau yn cael eu hargymell. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys defnydd bychan (o £248,000) allan o gronfeydd er mwyn pontio cyn i arbedion pellach ddod yn weithredol, ond ar y cyfan mae mwyafrif ein reserfau a chronfeydd wedi eu clustnodi at bwrpasau penodol. Nid yw defnyddio balansau, cronfeydd neu reserfau i gau bwlch ariannol yn ateb cynaliadwy. Ni fynegwyd barn croes i hyn gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

10.4 **Cyflogau Athrawon**
Gofynnwyd am gynnig Llywodraeth Cymru o ychwanegiad o hyd at 3% pellach i Athrawon. Nid oes gwybodaeth gadarn wedi ei dderbyn eto, a felly ni allwn addasu'r gyllideb ddrafft ar y pwynt yma. Os bydd setliad tâl yn uwch na'r gyllideb sydd wedi ei osod bydd rhaid defnyddio cronfeydd i bontio'r bwlch.

10.5 **Cyd Bwyllgor Corfforedig**
Trafodwyd cynnydd lefi'r Cyd Bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol wrth iddo ddatblygu, ac a fydd arbedion cyfatebol wrth i'r gwaith symud i ffwrdd o gyrff eraill? Mae cyfrifoldebau y Cydbwyllgor yn parhau i dyfu, a bydd ganddo rai cyfrifoldebau newydd sydd ddim yn gyfrifoldeb unrhyw un arall ar hyn o bryd. Felly, tra mae arbedion mewn meysydd eraill yn debygol, ni ddisgwylir iddynt fantoli'r costau ychwanegol i gyd. Byddwn yn gweithio i sicrhau fod unrhyw gynnydd yn cael ei gadw i'r isafswm.

10.6 **Rhagolygon ar gyfer 2024/25**
Gofynnodd y Pwyllgor a fydd 2024/25 yn flwyddyn anoddach na 2023/24. Fel nodir yn Atodiad 3, mae'r Cyngor wedi datblygu'r gyllideb hon drwy edrych ar lenwi bwlch dros ddwy flynedd, gan gynnwys y cynllun arbedion. Ceir mwy o wybodaeth yn Rhan 8 uchod.

10.7 **Defnydd y Premiwm Treth Cyngor**

Holiwyd am ddefnydd y Premiwm ychwanegol at bwrpasau Digartrefedd. Mae'r cynnydd a gytunwyd yn Rhagfyr 2022 wedi ei gynnwys yn y gyllideb; mae swm o £3m wedi ei neilltuo yn benodol yng nghyllideb 2023/24 ymlaen, fel y gwelir yn rhan 3.7 o'r adroddiad.

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer y gyllideb yn anorfod yn ganlyniad proses fanwl sydd yn dwyn at eu gilydd ystyriaethau statudol, cyllidol a blaenoriaethu. Yn unol â threfniadau llywodraethu'r Cyngor mae hyn yn cynnwys trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dylai'r Cyngor ddal sylw at y cyfan o'r asesiadau ac ymgynghoriadau a gyfeirir atynt a'r canfyddiadau sydd yn deillio wrth ystyried cymeradwyo'r argymhelliad. Mae'r Gyllideb hefyd yn seiliedig ar gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet er cefnogi'r argymhelliad. Rwyf wedi adolygu y materion yma ac rwy'n fodlon gyda priodoldeb y cynnig.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma yn unol â phenderfyniad Cabinet 14 Chwefror ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2023/24 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Cyfalaf |
| 3 | Arbedion |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â’r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Asesu’r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 10 | Cadernid yr Amcangyfrifon |
| 11 | Penderfyniad Ffurfiol |